

Fforwm Beirdd yr Uchelwyr

Clynnog Fawr, Mai 2017

Cynhaliwyd fforwm blynyddol prosiect Beirdd yr Uchelwyr eleni yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr, pentref bychan hardd ar arfordir gogleddol Penrhyn Llŷn, ond pentref ac iddo le pwysig yn ein hanes, fel y mae'r elfen Fawr yn ei awgrymu!

Rhys Goch Eryri, y bardd uchelwr o Hafodgaregog yn Nanmor, Eryri, oedd dan sylw gan ein siaradwr cyntaf, Dr Dylan Foster Evans. Ystyriodd yn arbennig y dystiolaeth dros lythrennedd y bardd, ei dras, a'i ganu i Feuno Sant.

Cerdd Syr Dafydd Trefor i Ddwynwen oedd pwnc Eurig Salisbury, a chyfeiriadau'r beirdd at gerflun a geid ohoni ar un adeg yn eglwys Llanddwyn. Trafodwyd yr arfer o fynd ar bererindod a rhannodd Eurig ei brofiadau personol yn mynd ar bererindod ym Mumbai yn India.

Siasbar Tudur oedd dan y chwyddwydr gan Dr Sara Elin Roberts. Yn fab i Owain Tudur o deulu Penmynydd a Catherine de Valois, yr oedd Siasbar yn ewythr i Harri VII, a chwaraeodd ran allweddol yn sicrhau cefnogaeth a buddugoliaeth i'w nai ar faes Bosworth yn 1485.

Y traddodiad llafar oedd pwnc Gruffudd Antur, a'r modd y byddai cwpledi neu linellau'n aml yn cael eu hailwampio yn ddamweiniol (neu weithiau'n fwriadol) gan ddatgeiniaid.

Dafydd Nanmor, disgybl barddol i Rys Goch Eryri, oedd pwnc Nia Watkin Powell a'r cwestiwn llosg ai perthynas go iawn neu greadigaeth lenyddol oedd y garwriaeth a fu rhyngddo a'r ferch briod Gwen o'r Ddôl, sef Dolfrïog ger cartref Dafydd yn Nanmor.

I gloi'r diwrnod cawsom daith hynod o ddifyr gan y Parch. J. Lloyd Jones o gwmpas yr eglwys, a sefydlwyd yn gynnar yn y seithfed ganrif gan Sant Beuno. Clywsom am bwysigrwydd y safle yn hanes Gwynedd ac fel man aros i bererinion ar eu ffordd i Enlli.

Llawer o ddiolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi ni eleni, a diolch yn arbennig i aelodau Cymdeithas Hanes Uwchgwyrfaei am eu cymorth ac am gael defnyddio'r Ganolfan Hanes yng Nghlynnog.

Ann Parry Owen

